# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 25AIN MEDI, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 15 Medi 2023)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Linda Ann Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gwynfor Owen |
| Arwyn Herald Roberts | Huw Rowlands |
| Elfed Williams | Sedd Wag - Plaid Cymru |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Eryl Jones-Williams | Anwen J. Davies |
| John Brynmor Hughes | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12 Mehefin 2023 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 7 - 12

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:
–

a) 21 Ebrill 2023
b) 14 Gorffennaf 2023

## 6. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2023/24 13 - 19

I ystyried a chymeradwyo yn derfynol y cynnig i godi'r ffioedd yn weithredol o'r 1af o Hydref 2023, i'r lefel a argymhellir ; yn unol â'r drefn a amlinellwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**12 Mehefin 2023**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Eryl Jones-Williams, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Rheinallt Puw, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts a Gareth Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Cyfreithiwr - Gwasanaethau Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2023/24**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2023/24**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2022/23**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2023/24**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, Alan Jones Evans ac Angela Russell

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelod canlynol ei fod gyda buddiant mewn perthynas â'r eitem a nodir:

Y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts, yn eitem 8 ar y rhaglen oherwydd bod ganddo gysylltiad agos â chwmnïau tacsis lleol.

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cais

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 5ed Rhagfyr 2022 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 13 Mawrth 2023, 10 Chwefror 2023, 23 Ionawr 2023, 14

Rhagfyr 2022, 23 Tachwedd 2022, 14 Tachwedd 2022 a 08 Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

## 8. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo ffioedd arfaethedig trwyddedau tacsi 2023/24. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor, yn ôl yn 2013, wedi penderfynu y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol a hynny i adennill costau llawn o dderbyn, prosesu a gweinyddu trwyddedau yn unig. Amlygwyd nad oedd ffioedd Gwynedd wedi newid ers 2019 ac er yr adolygwyd y sefyllfa yn 2020/21, penderfyniad y Pwyllgor oedd peidio cynyddu ffioedd oherwydd sgil effeithiau argyfwng covid.

Adroddwyd bod yr Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod fod costau cynnal a chadw cerbydau, costau yswiriant a chostau tanwydd wedi bod yn cynyddu dros yr 18 mis diwethaf, a bod y sefyllfa wedi bod yn anodd i'r diwydiant tacsi wrth ddod allan o'r cyfnod covid.

Amlygwyd, yng nghyd-destun costau'r Uned Trwyddedu, bod chwyddiant, ynghyd a ffactorau megis anghenion hyfforddiant swyddogion, costau hysbysebu ac ymgynghori ar newidiadau i'r prisiau, a chynnydd yn y lefel gwiriadau sydd angen eu gwneud i sicrhau addasrwydd gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr hefyd yn ystyriaethau ar gyfer cynyddu costau darparu'r gwasanaeth trwyddedu tacsis. Ategwyd yr angen i gwblhau Adolygiad y Polisi Tacsi Unedig, fydd yn mabwysiadu argymhellion Safonau Statudol Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Cenedlaethol yr Adran Drafnidiaeth; yn ogystal ag ymgorffori'r newidiadau pellgyrhaeddol arfaethedig fydd yn debygol o ddeillio o ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar sut mae'r diwydiant tacsi yn cael ei reoleiddio. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd fawr o ddewis ond cynyddu'r ffioedd os am gynnal y gwasanaeth a ddisgwylir gan y cyhoedd a'r diwydiant.

Adroddwyd bod y diffyg incwm a geir am y gwahanol drwyddedau tacsi yn amrywio; yn ddibynnol ar yr ymdrech ychwanegol sydd yn digwydd wrth brosesu ceisiadau a gwirio cydymffurfiad ac felly argymhellwyd cynnydd ar gyfartaledd o 12% mewn lefelau ffioedd yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Er bod cynyddu unrhyw ffioedd yn groes i'r graen, bod rhaid adennill costau
- Pryder y bydd rhai cwmnïau yn dod i ben o ganlyniad i'r cynnydd – angen sicrhau bod cymorth ar gael
- Prinder gyrwyr mewn ardaloedd gwledig, pam felly bod rhaid iddynt dalu'r un pris a gyrwyr ardaloedd trefol
- Bod rhai cwmnïau yn anwybyddu'r tariff

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnydd arfaethedig sylweddol mewn trwydded 3 mlynedd, derbyniwyd mai dyma'r cynnydd mwyaf sydd yn cael ei argymell oherwydd y gwaith o sicrhau os yw gyrrwr yn addas a phriodol (fydd hefyd i'r dyfodol, yn unol â gofynion statudol, yn cynnwys gwirio taliadau treth).

Mewn ymateb i gwestiwn pam na ellid gwneud cynnydd o 12% ar gyfer yr holl ffioedd yn hytrach na chanran cyfartaledd, nodwyd mai adennill costau yn unig yw hawliau'r Uned Trwyddedu a bod ffactorau penodol ynglŷn â'r broses. Amlygwyd bod ymarferiad costau wedi ei wneud ar gyfer pob math o drwydded i amlygu tegwch ac fe ystyriwyd na fuasai un canran yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa.

Mewn ymateb i'r sylw bod rhai cwmnïau tacsi yn anwybyddu'r tariff, nodwyd bod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn cymhlethu'r broses drwy gyflwyno dwy gyfundrefn rheoleiddio - un ar gyfer cerbydau hacni / tacsi ac un arall ar gyfer hurio preifat. Mewn ymateb, nodwyd yr angen i greu un system fyddai'n osgoi cymhlethdod a chyfeirio'r farn honno i'r Llywodraeth. Nododd y Rheolwr Trwyddedu, oedd hefyd yn Gadeirydd Grŵp Trwyddedu Gogledd Cymru, bod y Grŵp wedi cyflwyno sylwadau i ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru (Mai 2023) a'u bod yn siomedig iawn o benderfyniad Llywodraeth Cymru i barhau gyda dwy broses.

Anogwyd y Cynghorwyr i gyfeirio cwynion am unrhyw gwmni nad oedd yn cadw at y ffioedd i'r Uned Trwyddedu

Pleidleisiwyd ar y cynnig i godi'r ffioedd

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwyo'r cynnig i godi'r ffioedd i'r lefel a argymhellwyd: yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 10:40

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 21-04-23**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Huw Rowlands ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nicola Williams (Swyddog Trwyddedu - Arsylwi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mrs A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mrs A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y

cais yn unol â’r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ac adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i’r Is-bwyllgor gymeradwyo’r cais. Roedd trwydded yrru'r ymgeisydd yn drwydded lân.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn a’i hamgylchiadau personol. Nododd ei bod yn mynd drwy gyfnod anodd ac mai un digwyddiad domestig arweiniodd at gollfarnau Mawrth a Mai 2014. Ar y pryd roedd hefyd yn dioddef gyda phroblemau meddygol ac wedi’r digwyddiad, derbyniodd gefnogaeth a thriniaeth i wella. Cyfeiriodd at ei gwaith fel goruchwyliwr teithwyr trwyddedig sydd â chyfrifoldeb o gynorthwyo gyrwyr tacsi sydd yn cludo teithwyr / plant bregus ar gytundebau ysgol Adran Addysg Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a’r datganiad DBS ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Mawrth 2014 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o yrru Cerbyd Modur gyda gormodedd o alcohol, yn groes i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 A.5(1)(A. Derbyniodd ddirwy o £110, costau o £85 a gwaharddiad gyrru o 17 mis. Cyflawnwyd y drosedd 27-02-2014

Ym Mai 2014 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o Guro, yn groes i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 A.39. Derbyniodd ddirwy o £55, costau o £200 a Gorchymyn Atal - Diogelu rhag aflonyddu ar Gollfarn hyd nes y byddai gorchymyn pellach. Cyflawnwyd y drosedd 27-02-2014

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu’r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p’run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais.

Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau o yfed a gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf.

**CASGLIADAU**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor esboniad yr ymgeisydd o'r amgylchiadau a arweiniodd at gollfarn 2014 ynghyd ag argymhelliad y swyddog i ganiatáu y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarn 2014 yn drosedd o drais i bwrpas y Polisi a bod digon o amser wedi mynd heibio i'r trothwy tair blynedd ers i'r ymgeisydd gael ei dyfarnu'n euog. Ystyriwyd esboniadau'r ymgeisydd a'r rhesymau dros ei hymddygiad yn 2014 gan dderbyn ei bod eisiau rhoi'r mater tu cefn iddi a symud ymlaen. Diolchwyd i'r ymgeisydd am fod yn agored a gonest am y digwyddiad yn 2014.

Wedi ystyried natur y drosedd, y ddedfryd a roddwyd a'r ffaith nad oedd unrhyw hanes pellach o droseddu, nid oedd rheswm dros beidio dilyn polisi'r awdurdod yn yr achos yma a chaniatáu'r cais.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben 10 :30am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 14-07-23**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Huw Rowlands a Gareth Jones

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Lyndsey Thomas (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS a'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais. Roedd gan yr ymgeisydd drwydded yrru lân.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Nododd bod y troseddau wedi digwydd ar ôl iddo raddio o Brifysgol Bangor a chael ei wahodd i ymuno a chwmni newydd ar y Stryd Fawr. Nid oedd yn ymwybodol o'r camweinyddu ac ni fu iddo gynnwys y collfarnau ar ei ffurflen gais gan iddo ystyried y collfarnau fel rhai'r cwmni ac nid collfarnau personol. Ategodd ei fod bellach wedi derbyn dinasyddiaeth i'r wlad ac amlygodd bod ei gais am ddinasyddiaeth wedi bod yn un trylwyr am ei gymeriad.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Ebrill 2013 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o guddio, methu ymrwymo i'r dyletswydd a osodir o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 (A.1006. A1006(7). Cafodd ddirwy o £250 a chostau o £2200 a gordal dioddefwr o £15 mewn Llys Ieuenctid yng Ngwynedd.

Yn Nhachwedd 2013 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o guddio, methu ymrwymo i'r dyletswydd a osodir o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 (A.1006. A1006(7). Cafodd ddirwy o £250 mewn Llys Ieuenctid yng Ngwynedd.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Nid oedd y Polisi' yn ystyried y troseddau penodol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd, fodd bynnag cafwyd yr ymgeisydd yn euog mewn Llys Ieuenctid yn 2013. Nid oedd collfarnau wedi eu cofnodi ers hynny.

**CASGLIADAU**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor esboniad yr ymgeisydd o’r amgylchiadau a arweiniodd at gollfarnau 2013 ynghyd ag argymhelliad y swyddog i ganiatáu y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod collfarnau Ebrill a Thachwedd 2013 yn droseddau, ond bod cyfnod o 10 mlynedd wedi rhoi amser digonol i’r ymgeisydd brofi i’r Awdurdod Trwyddedu bod gwersi wedi eu dysgu ers iddo droseddu, bod ei ymddygiad wedi newid a’i fod wedi amlygu ei allu a’i addasrwydd ar gyfer dal trwydded gyrrwr tacsi.

Wedi ystyried natur y troseddau, y ddedfryd a roddwyd a’r ffaith nad oedd unrhyw hanes pellach o droseddu, nid oedd rheswm dros beidio yn yr achos yma a chaniatáu’r cais.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11 :40am a daeth i ben 12 :05pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **25 Medi 2023** |
| **TEITL:** | **FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2023/24** |
| **PWRPAS:** | **CYMERADWYO FFIOEDD ARFAETHEDIG YN DILYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

**1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL**

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 12fed o Fehefin 2023 fe gofiwch y cafwyd argymhelliad i gynyddu ffioedd trwyddedau tacsis er mwyn sicrhau fod costau sydd ynghlwm a gweinyddiaeth a chydymffurfiaeth y trwyddedau hyn yn cael eu hadennill, yn llawn. Gweler y tabl yn atodiad 1 i'r adroddiad hwn am fanylion llawn y ffioedd arfaethedig.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei ffioedd mewn perthynas â Thrwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor hwn yn ôl yn 2013 y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol.

1.2 Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol -

- I ganiatáu trwydded gyrrwr ar gyfer cerbyd hacni neu hurio preifat – costau ynghlwm â phrosesu, gweinyddu a rhoddi trwyddedau.
- I ganiatáu trwydded cerbyd a gweithredwr - costau archwilio, arosfa cerbyd hacni, rhybuddion cyhoeddus, rheoli a goruchwylio cerbydau ac unrhyw gostau eraill ynghlwm â phrosesu cais.

1.3 Mae'r diffyg yn yr incwm a geir am y wahanol drwyddedau tacsi yn amrywio ; yn ddibynnol ar yr ymdrech ychwanegol sydd yn digwydd wrth brosesu ceisiadau a gwirio cydymffurfiad . Mae'r lefel ffioedd a argymhellir er mwyn adennill costau ar gyfartaledd yn golygu cynnydd o 12%.

2. **<u>YMGYNGHORI Â'R DIWYDIANT</u>**

2.1 Roedd penderfyniad y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin i gymeradwyo cynyddu ffioedd trwyddedau tacsis yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn unol â'r gofynion statudol.

2.2 Mae'r diwydiant wedi derbyn llythyr yn amlinellu'r newidiadau yn y ffioedd, a'r rhesymau dros godi'r ffioedd; er mwyn caniatáu digon o gyfle i amlygu unrhyw bryderon am y cynnydd mewn ffioedd (gweler atodiad 2) . Yn unol ag Adran 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 mae rhybudd cyhoeddus o newidiadau arfaethedig i ffioedd wedi ymddangos yn y wasg leol ar yr 20fed o Orffennaf 2023. Mae amserlen benodol wedi ei dilyn ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac ni fydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn dod i rym hyd nes y bydd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol wedi ei ystyried y gan y Pwyllgor hwn.

2.3 Mae'r rhybudd a roddwyd yn y wasg ( gweler atodiad 3 ) yn cynnwys y dyddiad pan fydd y ffioedd yn dod yn weithredol, dim cynt na 28 diwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd ar yr amod na cheir gwrthwynebiadau i'r ffioedd. Ni fydd ffioedd newydd yn dod yn weithredol tan y 1af o Hydref 2023; os ceir penderfyniad terfynol i gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn.

2.4 Roedd y 28 diwrnod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar y 18 o Awst; ac fe ellir cadarnhau fod un e bost o wrthwynebiad wedi dod i law. Mae un cwmni tacsi lleol wedi crybwyll mewn e bost (gweler atodiad) pryder oherwydd fod y cynnydd mewn ffioedd yn mynd i wneud pethau yn anodd i gwmnïau ddenu gyrwyr newydd i ymgeisio am drwyddedau gyrru tacsi oherwydd y costau sydd ynghlwm ar broses drwyddedu. Nodir fod prinder tacsis ym Mhwllheli a Phen Llŷn. Mae'r pwynt hefyd yn cael ei wneud fod y diwydiant tacsi yn parhau i geisio adfer eu busnesau yn dilyn y gostyngiad sylweddol a fu mewn incwm yn ystod cyfnodau clo'r Pandemig Covid 19. Mae'r ymatebydd hefyd o'r farn fod costau yr Uned Drwyddedu yn debygol o fod wedi gostwng gan fod llawer o gwmnïau tacsi bellach yn defnyddio'r drefn hunanwasanaeth arlein i gyflwyno ceisiadau.

2.5 Mae'r Uned Drwyddedu yn gwerthfawrogi nad ydi yn hawdd annog pobl i fod yn rhedeg cwmnïau Tacsi yng nghefn gwlad; mae llawer o yrwyr newydd yn cael eu denu i weithio yn y diwydiant tacsi mewn lleoliadau llai gweledig megid Caernarfon a Bangor.

2.6 Nid yw'r gwasanaeth yn ymwybodol fod tystiolaeth fod llai o yrwyr yn rhoi ceisiadau am drwydded pan mae'r ffioedd yn codi.

2.7 Tra fod y gwasanaeth yn derbyn fod y drefn cyflwyno ceisiadau am drwydded tacsi drwy hunanwasanaeth wedi hwyluso trefniadau a chynorthwyo swyddogion i brosesu ceisiadau ynghynt ; dengys adolygiad o gostau'r gwasanaeth nad yw y broses hunanwasanaeth wedi arwain at leihau costau. Mae ymdrech sylweddol a chynyddol yn mynd i wirio cywirdeb y dogfennau a chynnal y gwiriadau hanfodol er mwyn sicrhau fod unigolion yn addas a phriodol i ddal trwydded tacsi ac fod cerbydau yn ddiogel.

**ARGYMHELLIAD**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo yn derfynol y cynnig i godi'r ffioedd yn weithredol o'r 1af o Hydref 2023, i'r lefel a argymhellir ; yn unol â'r drefn a amlinellwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## Motors

### Spares & Accessories

**YJC 90+90 YJC**

ON RETENTION

LOVELY OPERTUNATY FOR A PAIR OF CAERNARFON DATLUS NUMBER

**£7250 ovno**

07771871508



**Local** pick up, what a great idea

marketplacelive.co.uk

# Public Notices

## Statutory

**CYNGOR GWYNEDD**

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 FFIOEDD DIWYGIEDIG AR GYFER TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI, CHERBYDAU HURIO PREIFAT A GWEITHREDWR HURIO PREIFAT 2023/2024**

Hysbysir drwy hyn, yn unol ag adran 70, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu diwygio ffioedd trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat a gweithredwyr hurio preifat fel a ganlyn:

| | Ffi | Hyd |
|---|---|---|
| **Trwydded Cerbyd (Hacni a Hurio Preifat)** | £208.00 | 1 Blwyddyn |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat** | £257.00<br>£300.00<br>£358.00 | 1 Blwyddyn<br>3 Mlynedd<br>5 Mlynedd |

Gellir archwilio copi o'r hysbysiad am ddim am gyfnod o 28 niwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad hwn yn - Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Y Jel, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA

Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YB

Gellir cyflwyno unrhyw sylwadau i'r digwyddiadau a nodir uchod yn ysgrifenedig a'i anfon o fewn y 28 niwrnod o ddyddiad y rhybudd hwn at Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru> neu **Adran Amgylchedd, Stryd Y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.**

Yn ddarostyngedig i ystyriaeth o unrhyw sylwadau a dderbynnir o fewn 28 o ddyddiad y rhybudd hwn, bwriedir gweithredu ar y newidiadau uchod ar y 1 Hydref 2023.

Dyddiedig: 20/07/2023 Dafydd W Williams, Pennaeth Gwasanaethau Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

**GWYNEDD COUNCIL**

**LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976 REVISED LICENCE FEES FOR HACKNEY CARRIAGE VEHICLES PRIVATE HIRE VEHICLES AND PRIVATE HIRE OPERATOR'S 2023/2024**

Notice is hereby given, pursuant to section 70, Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, that Gwynedd Council proposes to amend the fees for Hackney Carriage vehicle, Private Hire vehicle and Private Hire Operator licences as follow:

| | Fee | Duration |
|---|---|---|
| **Vehicle Licence (Hackney Carriage & Private Hire)** | £208.00 | 1 Year |
| **Private Hire Operator's Licence** | £257.00<br>£300.00<br>£358.00 | 1 Year<br>3 Years<br>5 Years |

A copy of this notice may be inspected free of charge, for a period of 28 days from the publication of this notice at - Siop Gwynedd, Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Siop Gwynedd, Council Offices, Ffordd Y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA

Siop Gwynedd, Council Offices, Cae Penarlag, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YB

Any comments on the amendments specified above can be made in writing and sent within 28 days of this notice to Licensing@gwynedd.llyw.cymru or **Environment Department, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.**

Subject to consideration of any comments received within 28 days of this notice, it is proposed that the above changes will be implemented on 1 October 2023.

Dated: 20/07/2023 Dafydd W Williams, Head of Environment Services, Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH.

## Probate & Trustee

**HELEN GRIFFITHS (Maiden name: Robyns) (Deceased)**

Pursuant to the Trustee Act 1925 any persons having a claim against or an interest in the Estate of the above named, late of 83 Penrhos Road, Bangor, LL57 2BQ, who died on 19/04/2023, are required to send written particulars thereof to the undersigned on or before 21/09/2023, after which date the Estate will be distributed having regard only to the claims and interests of which they have had notice.

**John Tudur Owen,** Tudur Owen Roberts Glynne & Co, Moreia, South Penrallt, Caernarfon LL55 1NS (Ref:C/20427)

**JEREMIAH O'CONNOR (Deceased)**

Pursuant to the Trustee Act 1925 any persons having a claim against or an interest in the Estate of the above named, late of Flat 31 Awel Y Dyffryn, Middle Lane, Denbigh, Denbighshire, Wales, LL16 3AT, who died on 13/03/2023, are required to send written particulars thereof to the undersigned on or before 21/09/2023, after which date the Estate will be distributed having regard only to the claims and interests of which they have had notice.

**Two Partners of Guthrie Jones and Jones LLP,** Guthrie Jones and Jones, 29 Ruthin Road, Denbigh LL16 3EH (Ref:DOCO0110E)



Self -Serve your advert in a **flash** online

marketplacelive.co.uk



Share your adverts on social media with **family & friends** online today for free.

marketplacelive.co.uk

Your local place to **buy** and **sell**

# Adran Amgylchedd
# Environment Department

## Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu
## Pollution Control and Licensing Service

CYNGOR GWYNEDD

Gofynnwch am/Ask for: Gwenan M Roberts
☎(01766) 771000
Trwyddedu@gwynedd.llyw.cymru

Ein Cyf / Our Ref: GMR
Eich Cyf / Your Ref:


6/7/2023

Annwyl Syr/Madam

**FFIOEDD TRWYDDEDAU GYRRWYR, CHERBYDAU HACNI, HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR 2023/24**

Hoffwn eich hysbysu bod y Pwyllgor Trwyddedu wedi cymeradwyo'r hawl i gychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar gynyddu ffioedd trwyddedau tacsis o'r 1af o Hydref 2023.

Mae adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i adennill costau rhesymol.
Penderfynodd Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol y Cyngor yn 2013 y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol ac yn cael eu gosod ar lefel ddigonol i adennill costau rhesymol .

Mae'r Cygnor wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r costau ac wedi penderfynu fod lefel y ffioedd presennol yn annigonol i adennill y gost o ddarparu'r gwasanaeth Trwyddedu tacsi ar gyfer 2023/24

Ni chynyddwyd y ffioedd o gwbl yn 2020, 2021 nac yn 2022. Er mwyn adennill y costau; bwriedir cynyddu'r ffioedd o tua 12% ar gyfartaledd o 1 Hydref 2023

Ni fydd unrhyw gynnydd yn y ffioedd atodol megis ffi trosglwyddo cerbyd, neu ffioedd Bracedi, platiau a bathodynnau.

Dear Sir/Madam

**LICENCE FEES FOR HACKNEY AND PRIVATE HIRE DRIVER, VEHICLE AND OPERATORS 2023/24**

I wish to inform you that the Licensing Committee has resolved to commence a public consultation on increasing the fees for taxi licences from the 1st of October 2023

Sections 53 and 70 of the Local Government (Miscellaneous Provisions ) Act 1976 provide that fees may be charged at a level sufficient to recover reasonable costs. The Council's General Licensing Committee decided in 2013 that Taxi licensing fees would be reviewed annually and be set at a level sufficient to recover the reasonable costs.

The Council has undertaken it's annual review of costs and determined that the current fee levels are insufficient to recover the costs of providing the taxi licensing services for 2023/24.

The fees were not increased at all in 2020, 2021 or 2022. So as to achieve cost recovery; it is proposed that the fees will increase by approximately 12% on average. from 1 October 2023.
Supplementary fees for matters such as transfer of vehicle, brackets plates or badges will remain unchanged.

The full list of the current and proposed fees is


Swyddfa Ardal Dwyfor
Pwllheli
Gwynedd. LL53 5AA
01766 771 000
www.gwynedd.llyw.cymru

Gweler atodiad i'r llythyr hwn am y rhestr lawn o ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig . Noder, fod diwygio rhai ffioedd yn destun ymgynghoriad statudol. Fe fydd yr ymgynghoriad statudol yn cychwyn drwy gyhoeddi Rhybudd Cyhoeddus yn y papurau lleol ar **20fed o Orffennaf 2023**

Bydd copi o'r rhybudd ar gael iw archwilio am ddim yn Siop Gwynedd Caernarfon, Siop Gwynedd Pwllheli, a Siop Gwynedd Dolgellau am gyfnod o 28 diwrnod o'r 20fed o Orffennaf 2023 ymlaen .

Rhaid gwneud unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig yn ysgrifenedig ; a'i anfon o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhybudd i'r cyfeiriad isod neu drwy e bost at Trwyddedu@Gwynedd.llyw.cymru

attached to this letter. Please note , the varying of certain fees is subject to statutory consultation. The statutory consultation will begin with the publication of a Public Notice in local newspapers on **20th of July 2023.**

A copy of the notice will be available for inspection free of charge at Shop Gwynedd Caernarfon, Shop Gwynedd Pwllheli and Shop Gwynedd Dolgellau for a period of 28 days starting on the 20th of July 2023.

Any comments on the proposed amendments must be made in writing, and sent within 28 days of the publication date of the notice to the address shown below or by email to Licensing@Gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir/Yours faithfully



Gwenan Mai Roberts
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu)
Public Protection Manager (Pollution Control and Licensing)

| FFIOEDD SY’N DESTUN I YMGYNGHORIAD YN UNOL AG ADRAN 70 O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976.<br>FEES THAT ARE SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION IN ACCORDANCE WITH SECTION 70 OF THE LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976. | | | |
|---|---|---|---|
| **FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI** | **TAXI LICENSING FEES** | **FFI/FEES: OCTOBER 2018** | **CYNNIG/PROPOSAL: 2023/24** |
| **Trwydded Cerbyd Hacni**<br>Ffi Trwydded | **Hackney Carriage Vehicle Licence**<br>Licence Fee | £180.84 | £208.00 |
| **Trwydded Cerbyd Hurio preifat**<br>Ffi Trwydded | **Private Hire Vehicle Licence**<br>Licence Fee | £180.84 | £208.00 |
| **Ffi trosglwyddo cerbyd Hacni i berchennog newydd** | **Transfer of Hackney licence to new proprietor** | £75.00 | £75.00 |
| **Ffi trosglwyddo cerbyd HP i berchennog newydd** | **Transfer of PH licence to new proprietor** | £75.00 | £75.00 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat**<br>**(Gan gynnwys Gweithredwr Hurio Preifat amodol)** | **Private Hire Operators Licence**<br>**(Including School Transport Operators)** | 1 blwyddyn/ year: £236.00<br>3 mlynedd years: £275.00<br>5 mlynedd/years: £329.00 | 1 blwyddyn/ year: £257.00<br>3 mlynedd years: £300.00<br>5 mlynedd/years: £358.00 |

**FFIOEDD SYDD DDIM YN DESTYN I YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**
**FEES THAT ARE NOT SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION**

| FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI | TAXI LICENSING FEES | FFI/FEES: OCTOBER 2018 | CYNNIG/PROPOSAL: 2023/24 |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat**<br>Ffi Trwydded (cynnwys bathodyn) | **Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence**<br>Licence Fee (incl ID badge fee) | 1 blwyddyn/ year: £233<br>3 mlynedd years: £270 | 1 blwyddyn/ year: £268.90<br>3 mlynedd years: £367.90 |
| **Archwiliad Swyddfa Cofnodion Troseddol** | **Disclosure & Barring Service** | Ffi Statudol/Statutory Fee: £44.00<br>Ffi Weinyddol/Admin Fee: £9.50 | Ffi Statudol/Statutory Fee: £44.00<br>Ffi Weinyddol/Admin Fee: £9.50 |
| **Trwydded Hacni Ceffyl a Char** | **Horse Drawn Hackney Carriage Licence** | £152.60 | £152.60 |
| **Plât Trwydded Cerbyd (Par)** | **Vehicle Licence Plate (Pair)** | £34.80 | £34.80 |
| **Braced Par Trwydded Cerbyd (Par)** | **Vehicle Licence Plate Bracket (Pair)** | £34.80 | £34.80 |
| **Plât allanol cerbyd (Yr un)** | **External Vehicle Plate (Each)** | £18.25 | £18.25 |
| **Plât Mewnol Cerbyd** | **Internal Vehicle Plate** | £16.60 | £16.60 |
| **Llawes Plât Mewnol** | **Internal Plate Sleeve** | £5.00 | £5.00 |
| **Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un)** | **Private Hire External Door Sticker (Each)** | £18.25 | £18.25 |
| **Bathodyn Gyrrwr** | **Driver ID Badge** | £14.90 | £14.90 |
| **Ail-eistedd Prawf Gwybodaeth Gyrrwr** | **Driver Knowledge Test Re-sit** | £9.50 | £9.50 |